YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 51
IONAWR 2013

Ceir llawer iawn o gyfeiriadau at ddrysau yn y Beibl a diau mai un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yw'r darlun o'r Iesu'n dweud: *Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau. (Datguddiad 3: 20)*

Cyfeiriad arall llai amlwg at ddrws yn y Testament Newydd, ond un sydd yn llawn arwyddocad, yw'r darlun a gawn o'r tair gwraig, Mair Magdalen, Mair mam Iago a Salome wrth iddynt fynd yn y bore bach at y bedd i eneinio corff yr Iesu wedi'r croeshoeliad. Cyn medru cyflawni'r weithred hon, roedd yna un broblem yn eu hwynebu sef, pwy fyddai'n symud y garreg enfawr a osodwyd o flaen drws y bedd? *'Pwy a dreigla'r maen i ffwrdd i ni oddi wrth ddrws y bedd?' (Marc 16: 3)*. Gwyddent yn iawn na fyddent yn medru symud y garreg eu hunain gan ei bod yn rhy drwm ac yn rhy fawr. Mae'n siwr eu bod wedi gobeithio y byddai rhywun cryfach na hwy yn digwydd bod ar gael i'w cynorthwyo ac er mawr syndod iddynt, wedi cyrraedd y bedd gwelsant fod y garreg wedi cael ei symud gan Dduw ei hun a drws y bedd ar agor.

Mae'r profiad o gamu i mewn i flwyddyn newydd wedi cael ei ddisgrifio fel agor drws ac wrth i ninnau groesi'r trothwy a chychwyn ar flwyddyn newydd arall yn ein hanes mae'n siwr mai cymysgwch o brofiadau a fydd yn ein disgwyl gan gynnwys wynebu ambell broblem ddyrys. Ac efallai y bydd yna adegau pan fyddwn yn dyheu, yn union fel y gwnaeth Mair Magdalen, Mair mam Iago a Salome, am rywun cryfach na nyni i'n cynorthwyo i ddatrys yr union broblem honno.

Testun diolch yw bod yr un Duw a agorodd ddrws y bedd i'r Iesu yn barod heddiw eto i'n cynorthwyo yn ein bywydau beunyddiol. Does na'r un broblem sydd yn rhy fawr nac yn rhy ddyrys iddo. Wrth inni groesi'r trothwy ac agor drws 2013 a chychwyn ein taith ar hyd y flwyddyn newydd, gadewch inni fod yn gwbl sicr ein meddwl fod gennym Dduw sydd wrth law i'n cynorthwyo i wynebu pa beth bynnag a ddaw i'n rhan.

Boed blwyddyn gymeradwy
yr Arglwydd wrth ein dôr,
dirwyned drwy ein dyddiau
drugaredd hael yr Iôr:
a ni wrth borth y misoedd
yn ffyddiog am a ddaw,
ar drothwy'r daith anesgor
gafaelwn yn ei law.

John Roderick Rees

Blwyddyn Newydd Dda a phob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939
E-bost: berwynfa@btinternet.com

CALENDR MIS IONAWR 2013

Cyhoeddwr y Mis: Ceris Gruffudd	Organydd y Mis : Mair Evans	
6 Ionawr 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Rhiannon a Carwen
13 Ionawr 10.30yb	Oedfa Deuluol : Gweinidog	
20 Ionawr 2.30yp 6.00yh	Oedfa: Fy Hoff Adnod neu Emyn Cyflwyniad byr gan yr aelodau am eu hoff adnod neu emyn Oedfa Unedig yr Wythnos Weddi am Undod Cristnogol yn Seion, Stryd y Popty. Pregethir gan yr Uwchgapten Derek Jones, Byddin yr Iachawdwriaeth.	Gofal y Te: Rhiannon a Carwen
27 Ionawr 10.30yb	Clwb Sul o dan arweiniad Eleri Oedfa bregethu: Gweinidog	
3 Chwefror 2.30yp	Oedfa Gymun :Gweinidog	Bwrdd y Cymun:

I'CH DYDDIADUR

7 Ionawr: Cinio Bara Caws Cymorth Cristnogol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd am 12.15-1.30yp
9 Ionawr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
16 Ionawr: Cymdeithas y Penrhyn: Noson yng nghwmni Hywel Griffiths a fydd yn darllen a thrafod ei farddoniaeth
23 Ionawr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp
23 Ionawr: Cymdeithas Bethel: Yr Athro Jane Aaron yn trafod 'Cenadesau Cymreig y 19g' am 2.30yp
29 Ionawr: Cylch Trafod y Beibl yn Festri Horeb 7.30. Byddwn yn darllen Datguddiad 1.
12 Chwefror: Noson Pancos yn Festri Horeb am 6.30yh

Lloffion:

Cydymdeimlwn yn ddwys â:
Carwen a'r teulu ar golli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar.
Glenys Thomas a'r teulu ar golli cefnder

Oedfa 20 Ionawr: Fy Hoff Adnod neu Emyn: Byddem yn falch o glywed gan unrhyw un a fyddai'n hoffi cyflwyno ei hoff adnod neu emyn yn yr oedfa arbennig hon. Byddai cyflwyniad byr o ryw 2-5 munud yn dderbyniol iawn.

Y Gymanfa Ganu: Mae copïau ar gael o Raglen Cymanfa Ganu 2012/3 gan Ceris; pris £1.35